

# DEWCH I 'NABOD...

Sôn am Lyfra sy'n holi'r awdur

# PRYDERI GWYN JONES

Diolch am y sgwrs!

## FFEITHIAU FFLACH

| | |
|---|---|
| Dyddiad geni: | 1972 |
| Ganwyd yn: | Aberystwyth |
| Byw yn: | Glantwymyn wrth ymyl Machynlleth. |
| Ffaith diddorol: | Cefais fy achub gan hofrenydd byddin Chile tra'n cerdded mynyddoedd yn yr Andes. |

### Beth ydi dy gefndir a be ti'n wneud rŵan?

Athro Ysgol Uwchradd.

### Pa lyfrau wnaeth ddylanwadu arnat ti fel darllenwr ifanc? Pam?

Cofiaf fy mam yn prynu llyfr o'r enw, Ffrindiau Tomi i mi mewn 'steddfod flynyddoedd maith yn ôl. Roeddwn wrth fy modd gyda'r stori a'r lluniau. Wedyn, cefais flas ar lyfrau Twm Miall, Cyw Haul a Cyw Dôl a llyfrau Dafydd Huws am y Dyn Dwad.

### Beth wnaeth dy ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu llyfrau?




Mwynhau y direidi yn llyfrau Eurig Wyn, United a Powdr Rhech. Hefyd, yr angen am lyfrau hwyliog a gwreiddiol yn Gymraeg.



### Beth sydd bwysicaf – y cymeriadau neu'r plot? Hynny yw – beth sy'n gwneud llyfr da?

Mae creu cyfanwaith yn bwysig, ond rwy'n meddwl bod y llais yn y llyfr yn bwysig iawn. Mae'n rhaid trio cael y llais i siarad efo'r darllenwyr.


### Beth yw dy lyfr diweddaraf i blant a pham ei 'sgwennu?


Cyfres Brenin y Trenyrs - er mwyn i'r plant gael mwynhad o ddarllen stori syml a thrafod pethau'r byd yn naturiol yn Gymraeg.


### Pa neges sydd gen ti i ysbrydoli darllenwyr/ysgrifenwyr ifanc?

Peidiwch ag aros am ryw ysbrydoliaeth fawr, ac i'r lleuad a'r ser fod yn y lle iawn. Eisteddwch i lawr, a thriwch greu RHYWBETH! Wedyn, mi fydd gennych chi rywbeth i'w ddatblygu a'i ymestyn a'i wella.






### Beth yw dy hoff bar o dreinyrs yn y byd?

Mae'n rhaid i mi sôn am y pâr o drenyrs adidas cyntaf a gefais yn siop Meirion Appleton yn Aberystwyth erstalwm. Adidas Samba du a gwyn oedden nhw, ac roeddwn yn teimlo'n rel boi ac yn meddwl fy mod i'n gallu rhedeg yn gyflymach a neidio'n uwch ynddyn nhw. Y trenyrs diweddara i mi eu cael ydy Adidas Original Supercourt gwynion. Roedden nhw'n fargen am hanner pris!

**Os fasa gen ti dreinyrs hud – be fasa dy superpower?**

Cerdded fyny walia' a neidio o un adeilad i'r llall.